

CCB Iechyd Cyhoeddus Cymru

Jan Williams, Cadeirydd

28 Gorffennaf 2022



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Sefyllfa ariannol 2021/22

Huw George,

Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr
Gweithrediadau a Chyllid



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cyfrifon Blynyddol: Y Penawdau

- ❖ Cymeradwywyd gan Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- ❖ Cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol gan Archwilio Cymru
- ❖ Barn archwilio amodol ar reoleidd-dra gwariant o ganlyniad i fater technegol ar ddarpariaeth Cynllun Talu (mater GIG Cymru gyfan)
- ❖ Trafodion a materion cymhleth oherwydd pandemig a reolir gan yr Is-adran Gyllid
- ❖ Bodloni'r holl derfynau amser gofynnol
- ❖ Dysgu ôl-brosiect yn mynd rhagddo ac yn parhau ar draws yr Ymddiriedolaeth

Cyfrifon Blynyddol: Llwyddiannau Allweddol

- ❖ Gwarged o £143k
- ❖ Wedi bodloni'r dyletswyddau ariannol statudol i adennill costau ariannol dros gyfnod treigl o dair blynedd
- ❖ Cynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig) wedi'i gymeradwyo ar gyfer 2019-2020 i 2021-22 (dyletswydd cynllunio'n bodoli ar gyfer 2020-21)
- ❖ Wedi bodloni'r gofyniad gweinyddol i dalu 95% o filiau nad ydynt yn filiau'r GIG o fewn 30 diwrnod i'w derbyn

Cyfrifon Blynyddol: Gwariant

Cynyddodd gwariant 19% o 2020/21 yn 2021/22 yn bennaf oherwydd y canlynol:

- ❖ Cynnydd o £20m mewn costau nad ydynt yn gyflogau o ganlyniad i COVID-19
- ❖ Cynnydd o £10.8m mewn costau cyflogau o ganlyniad i:
 - Recriwtio i swyddi Gwydnwch ac Amser Gweithredu a swyddi Diogelu Iechyd
 - Cynnydd mewn costau cyflogau ar gyfer Adfer Sgrinio ac Optimeiddio Sgrinio'r Coluddyn
 - Cynnydd mewn costau cyflogau ar raglenni Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru a RISP (wedi'u cynnal gan - Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru)
- ❖ Cynnydd o £3.6m yng nghostau'r sefydliad wrth i wasanaethau adfer er mwyn dychwelyd i lefelau normal
- ❖ Costau Llwybr Cancer Sengl o £1.8m ar gyfer Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru

Cyfrifon Blynyddol: Cyfalaf

Cyflawnwyd rhaglen cyfalaf sylweddol. Roedd y prosiectau allweddol yn cynnwys:

- ❖ Offer delweddu newydd ar gyfer Bron Brawf Cymru (£4.8m)
- ❖ Buddsoddiad parhaus i brosiect Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru ar gyfer Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru (£1.2m)
- ❖ Dadansoddwr Maldi-Tof newydd (£1.1m)
- ❖ Offer dilyniannu genomig ar gyfer ehangu dilyniannu COVID-19 (£0.5m)

Ein Cyflawniadau yn 2021/22

Tracey Cooper
Prif Weithredwr



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cyflawniadau Allweddol 2021/22

- ❖ Parhau i gynnal a datblygu ein hymateb diogelu iechyd i COVID-19
- ❖ Ailgyflwyno ein hystod eang o swyddogaethau a gweithgareddau iechyd cyhoeddus craidd
- ❖ Trawsnewid ac esblygu ein sefydliad
- ❖ Diolch i broffesiynoldeb, ymrwymiad a chyfraniadau rhagorol ein pobl ar draws y sefydliad

Cyflawniadau Allweddol 2021/22

- ❖ Darparu ymateb aciwt a oedd yn canolbwyntio ar atal a rheoli COVID-19, a feirysau anadlol eraill.
- ❖ Darparu cyngor parhaus i Lywodraeth Cymru a llywio datblygiad y **Strategaeth Brofi COVID i Gymru**, gan gynnwys cyngor ar drosglwyddo i ymateb endemig
- ❖ Prosesu 1.7m o brofion **COVID** yn 2021/22 (gan gynnwys amrywiannau a dilyniannu)
- ❖ Cynnal lefelau uwch o brofion nad oeddent yn brofion **COVID** er gwaethaf delio â lefelau profi digynsail yn ystod ail hanner 2021/22
- ❖ Llwyddodd gwasanaeth **Microbioleg** ICC i gynnal ei amser prosesu 12 awr yn y labordy ar gyfer dros 80% o brofion am y rhan fwyaf o 2021/22
- ❖ Mae'r **Uned Genomeg Pathogen** ymhlith y gorau yn y byd ar gyfer nifer absoliwt o genomau SARS-CoV-2 wedi'u dilyniannu - dros 150,000 o samplau SARS-CoV-2 wedi'u dilyniannu hyd yma
- ❖ Datblygu cynigion ar gyfer **gwyliadwriaeth COVID** fel rhan o gynllun busnes gwyliadwriaeth anadlol integredig

Cyflawniadau Allweddol 2021/22

- ❖ Rhoi cynllun adfer ar waith ar gyfer y 5 **rhaglenni sgrinio** a gafodd eu hatal dros dro gan gynnwys datblygu'r Hyb Sgrinio 1af yng Nghymru
- ❖ Darparu cyngor/arweiniad arbenigol parhaus ar **Atal a Rheoli Heintiau** i'r sectorau iechyd a gofal yng Nghymru ac yn benodol ar Strategaethau Atal a Rheoli ar gyfer ymateb i COVID yn y dyfodol, gan gynnwys y newid i ymateb endemig
- ❖ Roedd y Swyddfa Ymchwil a Datblygu yn allweddol wrth gefnogi **Treialon Clinigol o'r Brechlyn COVID-19** ledled Cymru ac mae'n darparu ymateb 'Cymru'n Un' a throsolwg strategol ar gyfer yr holl dreialon COVID-19 a ddarperir, mewn partneriaeth ag Ymchwil Gofal Iechyd Cymru
- ❖ Ymateb parhaus i **glefydau trosglwyddadwy/peryglon amgylcheddol** eraill yn ystod y pandemig COVID-19
- ❖ Lansio'r ymgyrch **brechiad atgyfnerthu rhag y ffliw/COVID-19** fwyaf erioed
- ❖ **Asesiad Strwythuredig Cadarnhaol gan Archwilio Cymru** yn tynnu sylw at ein trefniadau llywodraethu da a addasodd yn dda i'r pandemig

Cyflawniadau Allweddol 2021/22

- ❖ Cyhoeddwyd **Strategaeth Gwelliant Cymru** ym mis Medi 2021 - 'Gwella Ansawdd a Diogelwch', gan ddod â'r holl gymorth ynghyd mewn un rhaglen genedlaethol ar gyfer iechyd a gofal, 'Gofal Diogel Gyda'n Gilydd'.
- ❖ Cawsom ein hailbenodi'n **Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd** am 4 blynedd arall, tan 2026, gan ddefnyddio ein cysylltiadau a'n partneriaethau rhyngwladol cryf i sefydlu system Sganio'r Gorwel Rhyngwladol ar gyfer materion yn ymwneud â COVID-19, gan ddarparu crynodebau polisi, gwybodaeth a'r darlun diweddaraf o ddatblygiadau eraill ledled y byd.
- ❖ Cynhyrchwyd ystod eang o ddogfennau llywio polisi gan gynnwys rhai ar **degwch iechyd**, asesu effaith ar iechyd, cynyddu incwm
- ❖ Cyflymu ein gwaith **Gwyddor Ymddygiad** i gefnogi Llywodraeth Cymru, y cyhoedd a phartneriaid
- ❖ Cwblhawyd gwaith ar y **Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan** diwygiedig i Oedolion ac i Blant a Theuluoedd sy'n gweithio gyda grŵp cyfeirio arbenigol o bob rhan o'r system.
- ❖ Datblygwyd ein ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant: roeddem yn safle 64 yn y DU ym **Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall** a chyflawni lefel Arian yn y Cynllun Ardystio Cymhwysedd Diwylliannol - y sefydliad cyntaf yn GIG Cymru i gyflawni hyn



Ein Ffocws yn 2022/23

- ❖ Parhau i gynnal ac esblygu ein hymateb diogelu iechyd
- ❖ Cynyddu ein ffocws ar liniaru'r ffactorau ehangach sy'n achosi niwed i'r boblogaeth
- ❖ Mynd i'r afael â'r ôl-groniad yn ein gwasanaethau sgrinio
- ❖ Ailgydio yn ein swyddogaethau iechyd cyhoeddus craidd
- ❖ Bwrw ymlaen gydag adferiad, datblygiad ac esblygiad y sefydliad
- ❖ Adolygu ein Strategaeth Hirdymor
- ❖ Harneisio proffil iechyd y cyhoedd yn ein camau nesaf fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

Ein Themâu Strategol yn 2022/23

- ❖ *Galluogi gwell iechyd ymysg y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy fesurau ataliol a chynaliadwy*
- ❖ *Darparu gwasanaethau rhagorol ar gyfer rhaglenni sgrinio'r boblogaeth, diogelu iechyd a heintiau*
- ❖ *Cefnogi gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd a gofal*
- ❖ *Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol, data a thystiolaeth i wella iechyd y cyhoedd*
- ❖ *Galluogi ein Cynllun i gael ei gyflawni'n llwyddiannus*

Holi ac Ateb

Jan Williams, Cadeirydd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Crynodeb a diwedd glo

Kate Eden, Is-gadeirydd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales